

Cofnodion cyfarfod electronig **BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR**
a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2015

Nodiadau	Gweithredu
<p>YN BRESENNOL: Elisabeth Elias, Llywydd, (yn y Gadair); Laurie Pavelin, Trysorydd; Keshav Singhal; Carole-Anne Davies; Christina Macaulay; Glenda Jones; Tony Atkins; Carol Bell; Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol, Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p>	
<p>YMDDIHEURIADAU: Ni ddaeth ymddiheuriad i law.</p>	
<p>1 CYMERADWYO BENTHYCIAD I'R IMPERIAL WAR MUSEUM A BENTHYCIAD RHYNGWLADOL DILYNOL AR GYFER ARDDANGOSFA DEITHIOL</p> <p>1.1 <u>Adroddwyd:</u> Bod yr Ymddiriedolwyr wedi cael cais i gytuno trwy e-bost i fenthyciad rhyngwladol eitem oedd ar fenthyciad i'r Imperial War Museum.</p> <p>1.2 Ymatebodd wyth ymddiriedolwr yn cymeradwyo'r benthyciad. Pum aelod yw cworwm y Bwrdd.</p> <p>1.3 <u>Penderfynwyd:</u> Yn unol â hynny ac y dylid cymeradwyo'r benthyciad, a bod diweddariad yn cael ei roi i'r Ymddiriedolwyr. Gweler isod.</p> <p>Benthyca gwrthrychau i'r Imperial War Museum a benthyciadau rhyngwladol dilynol o esgidiau tywod ar gyfer arddangosfa deithiol</p> <p>Ddechrau Ionawr 2015, clywodd yr Amgueddfa fod pâr o esgidiau tywod weiar milwrol, a wisgwyd gan y Capten Archibald H. Lee MC o 1/5^{ed} Bataliwn y Gatrawd Gymreig (a fu'n Ysgrifennydd Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn ddiweddarach) wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer benthyciad allanol fel rhan o arddangosfa deithiol fawr o dros 350 o eitemau o gasgliadau'r Imperial War Museum. Roedd yr eitemau wedi'u pacio ac ar fin cael eu cludo ar long ar gyfer arddangosfa yn Awstralia ddiwedd y mis. Yn hwyr iawn yn y dydd, cysylltodd aelod o staff yr Imperial War Museum ag Amgueddfa Cymru i ddweud ei fod wedi canfod tystiolaeth i ddangos mai Amgueddfa Genedlaethol Cymru oedd wedi rhoi'r esgidiau ar fenthyciad ym mis Medi 1930 fel eitem ar fenthyciad yn yr Imperial War Museum am gyfnod amhenodol' fel rhan o gasgliad ehangach o 'greiriau rhyfel'.</p> <p>Wrth chwilota drwy ein ffeiliau benthyciadau yn yr archif, gwelsom ohebiaeth â'r Imperial War Museum rhwng 1991 a 1992 pan gafodd y benthyciad hwn ei adolygu'n ffurfiol. Ym 1995, cafodd yr holl eitemau ar fenthyciad i'r Imperial War Museum eu cynnig fel eitemau i'w dileu o'r casgliad gan Gyngor yr Amgueddfa. Mae cofnodion perthnasol y Cyngor yn nodi bod cyfarfod o'r Cyngor ar 28 Gorffennaf 1995 wedi cytuno i'r canlynol:</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p><i>'Items from the Department of Archaeology & Numismatics were approved for deaccession, subject to items of militaria which were presently on loan to the Imperial War Museum being offered to the three Welch Regiments in Wales'.</i></p> <p>Yn sgil hyn, gwnaed archwiliad drwy ffeiliau gohebiaeth a ffeiliau benthyciadau ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol, ac mae'n ymddangos na chymerwyd unrhyw gamau i gynnig yr eitemau hyn i Amgueddfeydd Catrodol Cymreig eraill, ac nid yw'n ymddangos bod unrhyw ohebiaeth bellach â'r Imperial War Museum yn eu cyngori am benderfyniad y Cyngor. Nid yw'r benthyciad wedi'i gynnal na'i adolygu'n flynyddol yn y ffordd arferol. Yn ystod 1995, ymddengys bod y ddau aelod o staff Amgueddfa Cymru a gynhaliodd yr adolygiad hwn; (y Ceidwad Archaeoleg a Niwmismateg a'r Cynorthwy-ydd Dogfennu o Uned Ddogfennaeth yr Amgueddfa ar y pryd), wedi ymddiswyddo er mwyn gweithio'n rhywle arall.</p> <p>Unwaith y daeth yr wybodaeth hon i'r amlwg, roedd yn rhaid i'r Amgueddfa benderfynu a oedd am gymeradwyo'r is-fenthyciad o'r esgidiau hyn i'r arddangosfa deithiol ai peidio. Polisi'r Amgueddfa yw gofyn am sêl bendith Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ar gyfer benthyciad cyn rhoi unrhyw eitem o'n casgliadau ar fenthyciad tramor. Fodd bynnag, gan nad oedd y benthyciad hwn yn hysbys i ni a'r ffaith fod yr eitemau ar fin cael eu cludo dramor, gofynnwyd am benderfyniad cworwm yr Ymddiriedolwyr drwy e-bost ynglŷn â chymeradwyo'r benthyciad hwn ai peidio.</p> <p>Yn achos yr eitemau ar fenthyciad ar gyfer yr arddangosfa hon, roedd yr Imperial War Museum wedi profi i ni eu bod wedi gwirio cyflwr yr eitemau, wedi tynnu lluniau ohonynt a'u pacio i'r safon briodol. Erbyn hyn, mae'r Adran wedi llunio, cytuno ar a llofnodi cytundeb benthyciad ffurfiol ar gyfer yr eitemau sydd ar fenthyciad i Amgueddfa Melbourne, Awstralia. Mae'r Imperial War Museum wrthi'n trafod taith o'r arddangosfa hon hefyd, i leoliadau pellach yn Seland Newydd, Canada, UDA, Gwlad Belg neu Ffrainc dros y tair blynedd nesaf, ac felly'n gofyn am ganiatâd i fynd â'r eitemau hyn ar daith i leoliadau'r dyfodol, yn amodol ar brofi eu bod yn gallu bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer diogelwch ac amodau amgylcheddol.</p> <p>Hefyd, mae'r Amgueddfa wedi gofyn i'r Imperial War Museum gynnal adolygiad llawn o'r holl eitemau eraill a restrwyd fel rhai ar fenthyciad iddynt. Mae'r adolygiad hwn wedi cychwyn a disgwylir i rai eitemau gael eu dychwelyd atom, wrth i ni weithio tuag at lunio cytundeb benthyciad â'r Imperial War Museum ar gyfer unrhyw eitemau sy'n cael eu harddangos ganddynt yn eu horielau.</p> <p>Elizabeth A. Walker, Prif Guradur Casgliadau a Mynediad, Adran Hanes ac Archaeoleg</p> <p>Dylan Jones, Uwch Guradur: Casgliadau Hanes Modern, Adran Hanes ac Archaeoleg</p>	

Nodiadau	Gweithredu
26 Chwefror 2015	